Hawdd ei Ddeall

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

# Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

## Beth rydyn ni wedi ei wneud yn 2021 i 2022



Mae'r ddogfen yma wedi cael eu hysgrifennu gan **Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Cynllun Gwelliant Blynyddol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru – Sut y gwnaethom yn 2021-2022'**.

**Rhagfyr 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 30**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.** Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan:** www.decymru-tan.gov.uk

**Ffôn:** 01443 232000

**E-bost:** gtdc@decymru-tan.gov.uk

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Cyflwyniad....................................................................4**

**Amdanom ni....................................................................6**

**Ein hardal....................................................................8**

**Beth rydyn ni wedi ei wneud yn 2021 i 2022..................10**

1. Eich cadw chi yn ddiogel..........................................10
2. Ymateb i'ch argyfwng................................................15
3. Gweithio gyda'n partneriaid....................................17
4. Cyfathrebu yn well....................................................20
5. Edrych ar ôl ein hamgylchedd.................................22
6. Defnyddio technoleg yn well...................................24
7. Gwerthfawrogi ein pobl...........................................25
8. Gweithio yn y ffordd orau........................................27

**Cael dweud beth rydych chi'n feddwl...............................28**

**Geiriau Anodd...................................................................30**

# Cyflwyniad

Ni ydy Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.



Rydyn ni'n un o'r gwasanaethau tân ac achub mwyaf yn y DU.




Yn 2021 i 2022 fe wnaethon ni dderbyn dros 32 mil o alwadau brys. Fe wnaethon ni helpu mewn dros 17 mil o sefyllfaoedd.



Rydyn ni'n gwasanaethu rhai o'r cymunedau mwyaf prysur yng Nghymru. Rydyn ni eisiau cadw pobl De Cymru yn ddiogel rhag tanau a pheryglon eraill.




Rydyn ni'n helpu pobl drwy ddiffodd tanau. Rydyn ni hefyd yn helpu gyda phroblemau eraill fel damweiniau ffyrdd a phan mae pobl mewn perygl yn y dŵr.




Rydyn ni wedi bod yn gweithio ar ffyrdd o wneud ein gwasanaeth yn well.



I wneud hyn rydyn ni wedi meddwl am beth mae ein cymunedau ei angen. Rydyn ni wedi gweithio gyda phartneriaid eraill a gyda'n cymunedau.




Mae'r ddogfen yma am y pethau rydyn ni wedi bod yn gweithio arnyn nhw o 2021 i 2022.



Mae'n dweud wrthych chi beth rydyn ni wedi ei wneud i wella ein gwasanaeth.




Pan rydych chi wedi darllen y ddogfen yma rydyn ni eisiau i chi ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl. [Rydych chi'n gallu llenwi ein arolwg yma].




Mae beth rydych chi'n feddwl yn bwysig inni. Mae yn ein helpu ni i wneud cynlluniau gwell ar gyfer y dyfodol.

# Amdanom ni



Y flwyddyn yma, rydyn ni wedi cael Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd newydd i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru. Rydyn ni wedi cael 14 o aelodau newydd hefyd.



Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn gwneud yn siŵr ein bod ni yn rhedeg ein gwasanaeth yn dda. Y Cadeirydd sydd yn rheoli'r cyfarfodydd.



Roedd gennym ni dros 1600 o staff yn gweithio inni. Roedd hyn yn cynnwys ymladdwyr tân, pobl sydd yn ateb galwadau brys a staff cefnogi fel pobl sydd yn gofalu am ein cerbydau neu sydd yn gweithio gyda chyllid.



Mae gennym ni 47 o orsafoedd tân.




Roedden ni yn rhannu 9 gorsaf gyda **gwasanaethau brys** eraill.

**Gwasanaethau Brys** ydy gwasanaethau i'w galw mewn argyfwng fel yr Heddlu, Tân ac Achub a'r Ambiwlans.



Fe wnaethon ni weithio mewn ffyrdd newydd yn ystod y pandemig Covid-19. Mae angen inni barhau i ddefnyddio rhai o'r ffyrdd newydd yma o weithio. Fel cael cyfarfodydd neu hyfforddiant ar-lein.




Fe fydd hyn yn gwneud ein gwasanaethau yn fwy hawdd i bobl eu defnyddio. Fe fydd hefyd yn well i'r **amgylchedd**.



Yr **amgylchedd** ydy lle rydyn ni'n byw. Mae'n meddwl y tir, môr, aer a phopeth sydd yn byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

# Ein hardal



**Mae'r ardal rydyn ni yn ei gwasanaethu yn cynnwys dinasoedd Caerdydd a Chasnewydd, trefi mawr yn y cymoedd, lleoedd llai a'r arfordir.**



Dros y 10 mlynedd ddiwethaf mae'r nifer o gartrefi yn yr ardal wedi tyfu. Mae wedi tyfu fwyaf yng Nghasnewydd.



I person oedd yn byw yn y rhan fwyaf o'r cartrefi newydd.



Rydyn ni'n gwybod bod pobl hŷn sydd yn byw ar eu pen eu hunain yn fwy mewn perygl. Rydyn ni wedi gweithio gyda phartneriaid i wneud rhagor i'w helpu nhw.




Mae dros 600 o ysgolion yn ein hardal gyda dros 240 mil o ddisgyblion, Rydyn ni'n mynd i ysgolion lleol i siarad am ddiogelwch tân.



Rydyn ni’n rhoi cyngor i brifysgolion am ddiogelwch yn y cartref. Mae hyn yn helpu pobl sydd yn byw oddi cartref am y tro cyntaf.



Roedd tywydd poeth iawn yn Haf 2022 gyda **thannau gwyllt** yn achosi difrod.

**Tân gwyllt** ydy tân mewn coedwigoedd neu yng nghefn gwlad sydd ddim ei eisiau ac sydd yn methu cael ei reoli. Maen nhw’n lledaenu yn gyflym ac maen nhw’n gallu bod yn anodd i’w diffodd.



Roedd llifogydd mewn rhai lleodd ar ôl y tywydd poeth iawn.



Mae dros 35 mil o fusnesau yn ein hardal. Rydyn ni’n rhoi cyngor iddyn nhw ac yn gwneud yn siŵr eu bod nhw yn dilyn y rheolau diogelwch tân.

# Beth rydyn ni wedi ei wneud yn 2021 i 2022

Fe wnaethon ni weithio ar **8 maes** yn 2021 i 2022:



## 1. Eich cadw chi yn ddiogel



**Canolbwyntio ar waith atal i helpu i leihau'r angen i chi ein galw.**



Fe wnaethon ni ddechrau ffyrdd newydd o ddilyn a lleihau **galwadau ffug**.

**Galwadau ffug** ydy pan rydyn ni'n gorfod gadael i fynd i argyfwng ond pan rydyn ni'n cyrraedd does yna ddim argyfwng.



Fe wnaethon ni siarad am **alwadau ffug** gydag ysbytai, ysgolion a chymdeithasau tai.

Fe wnaethon ni ailddechrau rhoi cyngor ychwanegol ar fod yn ddiogel yn y cartref. Mae hyn yn meddwl:



- Helpu i stopio ysmygu.



- Perygl **carbon monocsid**.

> **Carbon monocsid** ydy cemegyn dydych chi ddim yn gallu ei weld sydd yn beryglus.



- Lleihau'r siawns o drosedd.



- Lleihau cwympo yn y cartref.



Fe wnaethon ni roi cyngor diogelwch y ffordd i dros 200 o bobl bob mis.





Fe wnaethon ni weithio gyda grwpiau eraill i ddarganfod ffyrdd o leihau tanau sydd yn cael eu dechrau yn fwriadol.



Yn y Rhondda fe wnaethond ni weithio gyda phartneriaid ar y **Prosiect Bryniau Iach** i edrych ar ôl ein bryniau yn well ar gyfer bywyd gwyllt.



Fe wnaethon ni weithio gydag eraill i:

- Helpu i leihau **tanau gwyllt**.
- Stopio pobl rhag ymddwyn yn ddrwg.
- Gwneud noson tân gwyllt yn fwy diogel.



Fe wnaethon ni helpu i lanhau ardaloedd lle roedd pobl wedi gadael sbwriel. Roedd hynny i leihau'r siawns o rhywun yn dechrau tân yno.



Fe wnaethon ni roi sgyrsiau am ddiogelwch yn y cartref gyda diogelwch wrth goginio, diogelwch trydanol a chanhwyllau.



Fel rhan o'r Gweithgor Adeiladau Uchel Iawn fe wnaethon ni siarad am ddiogelwch adeiladu uchel. A rhoi cyngor.



Fe wnaethon ni wella ein sgiliau a'n hyfforddiant achub dŵr. Fe fyddwn ni yn hyfforddi pob gorsaf i helpu i achub pobl rhag llifogydd.



Gyda **Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub** (RNLI) fe wnaethon ni roi hyfforddiant ar fod yn ddiogel wrth ymyl afonydd a chamlesi.





Fe wnaethon ni gael cyllid i ddechrau **Prosiect Llwybr yr Afon Wysg**. Fe fydd hyn yn meddwl bod cwch yn gallu lansio yn agos at ganol dinas Casnewydd i helpu gyda llifogydd.

# 2. Ymateb i'ch argyfwng




**Gwneud yn siŵr ein bod yn ymateb yn gyflym pan rydych chi ein hangen ni.**




Fe wnaethon ni recriwtio **ymladdwyr tân ar alwad** yn fwy cyflym. Fe wnaethon ni roi cynllun iddyn nhw i baratoi ar gyfer eu cwrs hyfforddi.



**Ymladdwyr tân ar alwad** ydy ymladdwyr tân sydd yn barod ac ar gael i weithio os oes eu hangen nhw.



Fe wnaethon ni weithio gyda gwasanaethau tân ac achub eraill i helpu ein gilydd i gymryd galwadau brys ar adegau prysur.



Yn Chwefror 2022 fe wnaethon ni ddechrau **Cefnogaeth** **Ar Alwad** fel bod gennym ni gefnogaeth pan oedd ei angen.



Fe wnaethon ni wella hyfforddiant i **ymladdwyr tân ar alwad**.



Fe wnaethon ni 2 ymarfer hyfforddiant mawr gyda dros 10 o beiriannau tân yn 2021. Rydyn ni'n bwriadu gwneud rhagor o'r rhain mewn gwahanol leoedd yn y dyfodol.

# 3. Gweithio gyda'n partneriaid



**Gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus De Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaeth tân ac achub sydd yn ateb eich anghenion chi.**



**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** ydy gwasanaethau sydd yn ffurfio grŵp i weithio gyda'i gilydd a gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn well. Gwasanaethau fel cynghorau lleol, GIG, yr heddlu, y gwasanaeth tân ac achub ac elusennau.




Fe wnaethon ni helpu gweithwyr yn GIG Cymru a'r Gwasanaethau Ambiwlans yn ystod y pandemig Covid-19.



Fe wnaethon ni yrru ambwlansys, rhoi brechlynnau a gweithio mewn canolfannau brechu. Fe wnaeth dros 100 o'n staff wirfoddoli i helpu.



Fe wnaethon ni gyfarfod gyda **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** i wneud yn siŵr ein bod yn rhoi help lle roedd ei angen. Fe wnaethon ni hefyd gyfarfod gyda chymunedau lleol.



Fe wnaethon ni weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru i wneud adeiladau yn fwy diogel. Fe wnaethon  ni weithio mwy gydag ysbytai i leihau risgiau.



Fe wnaethon ni roi cyngor am **alwadau ffug** a diogelwch adeiladau.



Fe wnaethon ni gael hyfforddiant gan Wasanaeth Telegofal Caerdydd ar sut i osod a chysylltu synwyryddion mŵg, gwres a **charbon monocsid** yng nghartrefi eu cwsmeriaid.



Fe wnaethon ni ddangos i staff Western Power Distribution sut i osod larymau mŵg.



Fe wnaeth yr adran Gofal a Thrwsio roi hyfforddiant inni am eu gwasanaethau er mwyn inni allu cyfeirio pobl atyn nhw.



Fe wnaethon ni roi hyfforddiant i staff ambiwlans oedd yn mynd i gartrefi risg uchel. Fe wnaethon ni greu ffordd hawdd iddyn nhw gyfeirio pobl atom.




Fe wnaethon ni roi hyfforddiant i staff GIG am y perygl o dân.



Fe wnaethon ni roi cyngor i gymdeithasau tai am ddrysau tân.

# 4. Cyfathrebu yn well

**Dod yn well am roi gwybodaeth i'n staff a'n cymunedau, fel eu bod nhw yn gallu ein helpu ni i wneud gwaith da.**



**Cyfathrebu** ydy sut rydyn ni'n rhoi gwybodaeth i bobl. Mae'n meddwl y **cyfryngau cymdeithasol**.



**Cyfryngau cymdeithasol** ydy ffyrdd o rannu gwybodaeth ar eich ffôn neu gyfrifiadur. Er enghraifft Facebook, Twitter ac Instagram.



Fe wnaethon ni ap i'n staff sydd yn dweud wrthyn nhw am ein newyddion a'n gwybodaeth. Fe fyddwn ni'n gofyn i staff beth maen nhw'n feddwl amdano er mwyn ei wneud yn well.



Rydyn ni'n gwybod nad ydy rhai pobl yn gallu cael gwybodaeth dros y rhyngrwyd, felly fe wnaethon ni roi gwybodaeth i bobl mewn ffyrdd oedd ddim angen cyfrifiadur.

Roedd hyn yn meddwl defnyddio taflenni, hybysebion mewn papurau newydd, radio a theledu, baneri a chael digwyddiadau.



Fe wnaethon ni roi offer fideo yn ein holl orsafoedd er mwyn inni allu cyfarfod ar-lein. Mae hyn yn ein helpu ni i rannu gwybodaeth.




Fe wnaethon ni fwy ar ein gwefan ac ar ein tudalennau Facebook, Twitter ac Instagram. Rydyn ni wedi cael mwy o bobl yn ein dilyn ac wedi cyrraedd rhagor o bobl.



Fe wnaethon ni ddefnyddio galwadau fideo i roi sgyrsiau i ddysgwyr rhwng 5 ac 16 oed.



Fe wnaethon ni'r **Pantomeim Bernie** i dros 1 mil o ddysgwyr ar draws 18 o ysgolion, Mae'n dysgu disgyblion am beryglon tanau gwair.

# 5. Edrych ar ôl ein hamgylchedd



**Gwneud ein gwaith mewn ffordd sydd yn helpu'r blaned.**



Mae gennym ni bobl newydd i'n helpu ni i wneud ein cynlluniau **amgylchedd** yn well. Fe wnaethon ni fesur faint o ynni roedden ni yn ei ddefnyddio yn ein hadeiladau. Rydyn ni'n defnyddio rhagor o **gerbydau trydan**. Ac yn rhoi pwyntiau gwefru mewn rhagor o leoedd.



Mae **cerbydau trydan** fel ceir a faniau yn defnyddio trydan i redeg, Maen nhw'n well i'r **amgylchedd**.



Fe wnaethon ni newid llawer o'n taflenni gyda negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Rydyn ni'n gwybod bod rhaid i rai taflenni aros fel bod pawb yn gallu cael yr wybodaeth.



Fe wnaethon ni ailgylchu rhagor o bapur yn ein gorsafoedd. Fe wnaethon  ni argraffu llai ac archebu llai o bapur.




Fe gawson ni ragor o gyfarfodydd ar-lein ac fe wnaethon ni roi rhagor o hyfforddiant ar-lein i leihau'r angen i deithio.



Fe wnaethon ni edrych ar system i gasglu dŵr glaw inni ei ddefnyddio ar gyfer pethau fel glanhau peiriannau tân a cheir.

# 6. Defnyddio technoleg yn well



**Edrych ar ddefnyddio gwell technoleg i wella ein gwasanaeth i chi.**



Fe wnaethon ni ddefnyddio rhagor ar dabledi symudol i gofnodi beth rydyn ni'n ei wneud.  Rydyn ni'n bwriadu gwneud mwy o hyn. Fe wnaethon ni ddechrau defnyddio dyfeisiadau symudol ar beiriannau tân.

Mae hyn yn meddwl ein bod yn gallu cofnodi gwybodaeth am ddiogelwch a digwyddiadau yn y gymuned – fel tanau a damweiniau car.



Fe wnaethon ni ddechrau newid ein systemau cyfrifiadur yn Haf 2021 er mwyn inni allu gweithio yn well. Mae gennym ni system well i gadw gwybodaeth am ein cerbydau fel ein faniau a'n peiriannau tân.



Fe wnaethon ni ddefnyddio cyfrifiaduron i helpu pobl i ymuno mewn cyfarfodydd mawr, digwyddiadau a dyddiau hyfforddi.



Roedd hyn yn helpu pobl i ofyn ac ateb cwestiynau a'n helpu ni i gasglu'r canlyniadau.

# 7. Gwerthfawrogi ein pobl



**Cefnogi'r bobl amrywiol sydd yn gweithio inni a'u hyfforddi nhw yn dda.**



Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yng Nghymru yn:

- dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- mae ganddyn nhw alluoedd gwahanol
- credu mewn gwahanol bethau
- hunaniaethau rhywiol gwahanol
- gwneud dewisiadau gwahanol am sut maen nhw yn byw eu bywydau
- gwahanol oed.



Fe wnaeth ein gorsafoedd helpu pobl i ddysgu rhagor am ein swyddi. Fe wnaethon ni annog ein **cadetiaid tân** i feddwl am weithio inni.

**Cadetiaid tân** ydy pobl ifanc 13 i 16 oed. Maen nhw'n cyfarfod unwaith yr wythnos, yn gwisg iwnifform ac yn dysgu sgiliau ymladd tân.



Fe wnaethon ni gynnal digwyddiadau ar-lein lle roedd ymladdwyr tân yn rhannu eu straeon.




Fe wnaethon ni ddechrau edrych i weld os ydy ein polisïau a’n gweithgareddau yn meddwl am grwpiau amrywiol.




Fe wnaethon ni ddechrau defnyddio system newydd i gofnodi cyfarfodydd gyda staff. Mae hyn wedi ein helpu ni i siarad am nodau swyddi a llesiant.



Fe wnaethon ni weithio ar ein prosiect llesiant, Fe fyddwn ni yn hyfforddi ein rheolwyr ar y prif syniadau.



Fe wnaethon ni greu ardaloedd llesiant yn rhai o’n hadeiladau. Fe wnaethon ni weithio gyda’r staff i wneud hyn. Rydyn ni’n bwriadu creu rhagor o ardaloedd mewn mwy o adeiladau.



Roedd grŵp yn cyfarfod bob 3 mis i siarad am llesiant staff.

# 8. Gweithio yn  y ffordd orau



**Gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud ein gwaith i'r safon uchaf ond ar y cost isaf.**



Fe wnaethon ni orffen edrych ar y cyflogau rydyn ni'n eu talu i'n staff ac rydyn ni wedi dweud wrthyn nhw am unrhyw newidiadau. Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod pob aelod o'r staff yn cael y lefel gywir o gyflogau.



Fe wnaethon ni ddefnyddio rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n gweithio. Mae hyn yn ein helpu ni i ddeall lle mae ein hangen ni a sut rydyn ni'n gallu gwneud cymunedau yn fwy diogel.



Fe wnaethon ni edrych ar sut mae **Ystafell Reoli Tân ar y Cyd** yn gweithio. Fe wnaethon ni ddechrau gwneud newidiadau i helpu staff. **Ystafell Reoli Tân ar y Cyd** ydy lle mae galwadau brys yn cael eu hateb.




Fe wnaethon ni edrych ar sut i wneud yn siŵr ein bod ni ar gael pan mae ein hangen ni. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy Amserlenni Hyblyg.  Fe fyddwn ni'n edrych i weld bod hyn yn gweithio'n dda bob blwyddyn.

# Cael dweud beth rydych chi'n feddwl



**Rydyn ni eisiau clywed beth rydych chi'n feddwl am ein gweithgareddau a'n gwybodaeth. Fe fydd yn ein helpu ni i wneud ein gwasanaethau yn well.**




Rydyn ni eisiau i chi ddweud beth rydych chi'n feddwl yn ein harolwg 2022 yma.



**Ysgrifennu:**

Perfformiad a Chynllunio Gwasanaeth
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX



**E-bost:** gtdc@decymru-tan.gov.uk




**Gwefan:** [www.decymru-tan.gov.uk](www.decymru-tan.gov.uk)



**Ffôn:** 01443 232000

**Facebook:** @TanDeCymru

**Twitter:** @TanDeCymru

**Instagram:** sw_fire_and_rescue




Rydych chi'n gallu cysylltu gyda ni yn Gymraeg neu yn Saesneg. Fe fyddwn ni yn ateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio.

# Geiriau Anodd

## Amgylchedd

Yr amgylchedd ydy lle rydyn ni'n byw. Mae'n meddwl y tir, môr, aer a phopeth sydd yn byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

## Amrywiol

Mae amrywiol yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft  mae pobl yng Nghymru yn:

- dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- mae ganddyn nhw alluoedd gwahanol
- credu mewn gwahanol bethau
- hunaniaethau rhywiol gwahanol
- gwneud dewisiadau gwahanol am sut maen nhw yn byw eu bywydau
- gwahanol oed.

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ydy gwasanaethau sydd yn ffurfio grŵp i weithio gyda'i gilydd a gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn well. Gwasanaethau fel cynghorau lleol, y GIG, yr heddlu, tân ac achub ac elusennau.

## Cadetiaid tân

Cadetiaid tân ydy pobl ifanc 13 i 16 oed. Maen nhw'n cyfarfod unwaith yr wythnos, yn gwisgo iwnifform ac yn dysgu sgiliau ymladd tân.

## Cerbydau trydan

Mae cerbydau trydan fel ceir yn defnyddio trydan i redeg. Maen nhw'n well i'r amgylchedd.

### Cyfathrebu

Mae cyfathrebu yn meddwl sut rydyn ni'n rhoi gwybodaeth i bobl. Mae'n meddwl pethau fel siarad, ysgrifennu, digwyddiadau, fideos a chyfryngau cymdeithasol.

### Cyfryngau cymdeithasol

Ffyrdd o rannu gwybodaeth ar eich ffôn neu gyfrifiadur. Er enghraifft Facebook, Twitter ac Instagram.

### Galwadau ffug

Galwadau ffug ydy pan rydyn ni'n gadael i fynd i argyfwng ond pan rydyn ni'n cyrraedd does dim argyfwng.

### Gwasanaethau Brys

Gwasanaethau i'w galw mewn argyfwng fel yr Heddlu, Tân ac Achub ac Ambiwlans.

### Tanau gwyllt

Tân gwyllt ydy tân sydd ddim ei eisiau ac sydd heb ei reoli mewn coedwigoedd neu yng nghefn gwlad. Maen nhw'n lledaenu yn gyflym ac maen nhw'n gallu bod yn anodd i'w diffodd.

### Ymladdwyr tân ar alw

Ymladdwyr tân ydy ymladdwyr tân ar alw sydd yn barod ac ar gael i fynd i weithio os oes eu hangen nhw.